Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

# Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseph,
**Coedlan Brackley,**
**Bae Colwyn,**
**Conwy.**
**LL29 7UU**

**Dyddiad yr arolygiad: Mis Mehefin 2012**

**gan**

**Mr Wil Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 29/08/2012**

## Cyd-destun

Ysgol Wirfoddol Gatholig yw Ysgol Gynradd Sant Joseff, wedi ei lleoli yn nhref glanmôr Bae Colwyn ac yn gwasanaethu plwyfi St Joseff a'r Sacred Heart yn Hen Golwyn. Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn derbyn rhai plant o'r ardaloedd gwledig cyfagos. Er y daw y rhan fwyaf o'r disgyblion o ardaloedd nad ydynt at ei gilydd naill ai'n ffyniannus nac ychwaith yn ddifreintiedig, mae 17% yn byw mewn ardaloedd a ddisgrifir fel rhai difreintiedig cymdeithasol ac economaidd. Mae tua 13% o'r disgyblion â'r hawl i brydau bwyd am ddim, sydd yn llawer is na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Ar hyn o bryd, mae 230 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol o oedran 3 i 11 a chant eu dysgu mewn wyth dosbarth o'r un oed. Mae'r rhan fwyaf o dras ethnig gwyn Prydeinig a defnyddiant Saesneg fel eu hiaith gyntaf. Mae tua 10% gyda Saesneg fel iaith ychwanegol; nid oes yr un ohonynt yn defnyddio'r iaith Gymraeg gartref. Ar hyn o bryd mae un plentyn y gofelir amdano gan yr awdurdod. Ni fu unrhyw waharddiadau yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

Dengys asesiadau cychwynnol bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau llythrennedd a chyfathrebu ychydig yn uwch na'r cyfartaledd. Mae'r ysgol yn nodi bod tua 19% o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Nid oes yr un disgybl â datganiad statudol o anghenion dysgu ychwanegol.

Ni fu newidiadau arwyddocaol yn natur yr ysgol ers ei harolygwyd diwethaf ym mis Mehefin 2006. Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym mis Medi 2001.

Mae'r gyllideb unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff yn 2011-12 yn golygu cyllideb o £3137 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd awdurdod Conwy yw £13,941 a'r isafswm yw £2,935. Mae Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff yn 58fed o'r 61 ysgol gynradd yn awdurdod Conwy o safbwynt ei chyllideb fesul disgybl

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- safonau llythrennedd yn dda ac mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn trwy'r ysgol;
- cyflawniad a chynnydd mewn dysgu yn dda;
- disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac mae bron pob un yn ymddwyn yn dda;
- addysgu ar y cyfan yn dda; a bod
- yr ysgol yn darparu gwerth da am arian.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol;
- prosesau hunan- arfarnu a chynllunio strategol grymus yn nodwedd reolaidd o fywyd yr ysgol;
- yr holl staff yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn fodlon rhoi cynnig ar fentrau newydd; a bod
- yr ysgol wedi sefydlu cymuned dysgu broffesiynol gadarn sydd wedi dod â deilliannau cadarnhaol iawn.

## Argymhellion

Er mwyn gwneud cynnydd pellach mae angen i'r ysgol:

A1 ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2 i gyfeirio eu dysgu eu hunain;

A2 sicrhau bod yr arfer orau mewn addysgu yn cael eu hymestyn ar draws yr ysgol; a

A3 datblygu ymhellach systemau ar gyfer tracio cynnydd disgyblion.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn unol â'u hoedran a'u cyfnod datblygu, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyflawni safonau da mewn llythrennedd. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob un yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ddefnyddio eu medrau llythrennedd a chyfathrebu mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol gwahanol. Mynegant eu syniadau yn glir ac, erbyn diwedd Cyfnod Sylfaen 2, maent yn darllen yn hyderus ac yn fanwl gywir ac yn ysgrifennu i safon dda. Ar y cyfan, maent yn sillafu geiriau cyffredin yn gywir.

Yng nghyfnod allweddol 2 mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trafod agweddau o'u gwaith yn ddeallus gan ddangos gallu da i gynnal a datblygu cyfraniadau llafar. Dengys llawer ddealltwriaeth dda o wahanol destunau ac fe gymhwysant ystod eang o strategaethau priodol ar gyfer canfod a chywain gwybodaeth o lyfrau a gwefannau. Mae bron pob un yn mynegi a threfnu eu syniadau mewn ffurfiau ysgrifenedig yn hyderus ac yn ddealladwy gan ddefnyddio cystrawennau gwahanol, paragraffu ac atalnodi gydag effeithiolrwydd cynyddol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu Cymraeg ac yn arddangos agwedd hynod o gadarnhaol tuag at y pwnc. Yn ystod gwersi, mae llawer yn gofyn ac yn ateb cwestiynau, yn dilyn cyfarwyddiadau gyda hyder cynyddol ac ambell waith yn defnyddio'r Gymraeg o amgylch yr ysgol. Meddant ymwybyddiaeth gynyddol o ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Roedd y canran yn cyflawni'r lefel disgwyliedig mewn Cymraeg Ail Iaith ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2011yn 25% yn uwch na'r meincnod cenedlaethol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, yn ystod pedair o'r pum mlynedd diwethaf, mae canran y disgyblion gyrhaeddodd lefel 2 yn y pynciau craidd wedi bod yn y 50% uwch o'u cymharu gydag ysgolion sydd â chanrannau tebyg o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Roedd y gyfran a gyflawnodd lefel 2 neu'n uwch yn 2011 mewn Saesneg a gwyddoniaeth yn is na'r meincnodau cenedlaethol a chanlyniadau'r rhan fwyaf o'r ysgolion yn yr un teulu. Roedd canlyniadau mathemateg fymryn yn uwch na meincnodau cenedlaethol. Roedd cyfran y disgyblion mwy galluog gyflawnodd lefel 3 yn is na'r meincnodau cenedlaethol a'r teulu o ysgolion ymhob un o'r tri phwnc.

Gydag ychydig iawn o eithriadau, mae canlyniadau disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ystod y bum mlynedd diwethaf wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda'r canran yn cyflawni'r lefel 4 disgwyliedig neu'n uwch yn y pynciau craidd yn y 50% uwch o'u cymharu gydag ysgolion sydd â chanrannau tebyg o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Yn 2011, roedd cyfran y disgyblion gyflawnodd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg a gwyddoniaeth yn arwyddocaol uwch na'r meincnodau cenedlaethol a chyfartaleddau'r teulu o ysgolion. Roedd canlyniadau mewn mathemateg yn gyffelyb i'r meincnodau hyn. Roedd cyfran y disgyblion gyrhaeddodd lefel 5 mewn Saesneg yn uwch na'r meincnodau cenedlaethol a'r cyfartaleddau ar gyfer y teulu o ysgolion tra bod gwyddoniaeth yn gyffelyb a mathemateg yn is.

Mewn gwersi a thros amser mae bron pob un disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf, yn cynnwys y rhai mwy galluog a'r rhai gydag anghenion dysgu arbennig neu sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol, yn gweithio i'w llawn potensial. Mae merched a bechgyn ar y cyfan yn perfformio i'r un graddau a'i gilydd o'u cymharu gyda'r meincnodau cenedlaethol.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn dweud eu bod yn mwynhau ysgol ac wedi ffurfio perthynas agos gyda staff. Mae'r rhan fwyaf yn wynebu profiadau a heriau newydd yn hyderus ac maent yn awyddus i ymholi a gofyn cwestiynau.

Mae agweddau tuag at ddysgu yn gadarnhaol iawn gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig ac yn llwyr ymgymryd â'u tasgau. Yn y Cyfnod Sylfaen mae bron pawb yn dod yn ddarllenwyr hyderus sydd wedi datblygu arferion dysgu cadarnhaol ac sy'n gallu gwneud penderfyniadau am eu dysgu eu hunain. Erbyn cyfnod allweddol 2 medda'r rhan fwyaf y sgiliau i wella eu dysgu eu hunain, i weithio gydag eraill a datrys problemau; mae bron pob un yn gwerthuso eu gwaith eu hunain yn feddylgar gan osod targedau personol iddynt eu hunain ar gyfer gwelliant.

Mae disgyblion o bob oedran wedi caffael dealltwriaeth o sut y gallent fod yn iach, trwy'r hyn a fwytânt a hefyd trwy'r ymarfer corff a wnânt.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion o bob oedran yn ymddwyn yn dda ar y cyfan ac yn dangos cwrteisi a phryder am eraill. Gydag eithriadau prin iawn, dwedant eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a gwyddant at bwy i droi os ydynt yn pryderu.

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae presenoldeb wedi bod yn y chwartel uchaf ar un achlysur a'r canol uwch ar bedwar achlysur. Ar 94.68% yn 2011, mae fymryn yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru gyfan.

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen o wirfodd yn ymgymryd â dyletswyddau arferol fel, "Helpwr Heddiw" ac maent yn dechrau cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain. Trwy gyngor yr ysgol, yr eco-bwyllgor a gweithgareddau eraill, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn chwarae rhan weithredol yn yr ysgol ac yn y gymuned ac maent yn hyderus y clywir eu llais.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion yr ystod gallu lawn yn llwyddiannus gan gynnwys y disgyblion mwy galluog a thalentog a' rhai sydd â Saesneg yn iaith ychwanegol. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio gweithgareddau hyblyg a llawn dychymyg, sy'n llwyddo i ddenu diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae profiadau dysgu ysgogol , tu fewn a'r tu allan, yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu herio gyda thasgau perthnasol sy'n darparu parhad a dilyniant yn eu dysgu. Er y darperir cyfleoedd helaeth ar gyfer datblygu medrau meddwl, datrys problemau ac annibyniaeth disgyblion, mae'r orddibyniaeth ar daflenni gwaith mewn rhai

dosbarthiadau yn cyfyngu ar ddysgu. Mae darpariaeth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu wedi ei gynllunio'n dda ac mae'n nodwedd dda.

Mae cynllunio a darpariaeth ar gyfer datblygiad yr iaith Gymraeg yn drylwyr ac wedi ei gydweddu'n dda ag oedran a gallu'r disgyblion. Ceir darpariaeth dda ar gyfer datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o hanes a diwylliant Cymru.

Mae rhaglenni cefnogi effeithiol iawn yn galluogi disgyblion i gyfranogi'n llawn ymhob gweithgaredd. Darperir gwaith heriol sydd wedi ei gydweddu'n dda ar gyfer y disgyblion mwy galluog a thalentog.

Mae disgyblion yn elwa o ystod o ymweliadau a gweithgareddau allgyrsiol sy'n gwella ymhellach eu profiadau dysgu. Sefydlwyd yn dda ar draws yr ysgol ddarpariaeth i'w galluogi i gynyddu eu gwybodaeth am gynaladwyedd ac i wella eu dealltwriaeth am y byd ehangach.

**Addysgu: Da**

Medda athrawon wybodaeth bynciol gyfredol a chynlluniant eu gwersi'n effeithiol er mwyn sicrhau y caiff pob disgybl ei herio gan brofiadau dysgu cyffrous a gydweddir yn dda â'i oedran a'i allu. Mewn rhai gwersi, fodd bynnag, nid yw'r tasgau yn ennyn diddordeb y disgyblion llai galluog.

Mae athrawon yn defnyddio ystod eang o ymdriniaethau a strategaethau yn llwyddiannus ac yn darparu cyfleoedd da ar gyfer datblygu medrau. Maent yn nodi amcanion dysgu clir a meini prawf llwyddiant a rannir gyda disgyblion. Ynghyd â staff cymorth, defnyddiant gwestiynu yn fedrus i hyrwyddo medrau meddwl. Defnyddir Cymraeg achlysurol yn effeithiol ymhob dosbarth.

Mae'r berthynas waith rhwng disgyblion a staff yn gadarnhaol iawn; rheolir ymddygiad ar y cyfan yn dda a cheir awyrgylch gwaith cynhyrchiol yn y rhan fwyaf o wersi.

Mae staff cymorth yn darparu cynhaliaeth sydd wedi ei ffocysu'n dda a hefyd adborth i'r disgyblion sy'n gwella eu dysgu. Maent yn ymyrryd yn effeithiol i ddarparu cefnogaeth ar gyfer grwpiau penodol.

Ceir systemau clir sydd wedi eu sefydlu'n dda ar gyfer tracio a chofnodi cynnydd disgyblion. Galluoga'r systemau hyn y staff i adnabod unrhyw achosion o berfformiad isel ac i ymgymryd gwaith adfer ble bo'r angen. Defnyddir gwybodaeth asesu yn bwrpasol ymhob dosbarth i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu gwreiddio'n gadarn yn nulliau addysgu ac asesu'r ysgol. Mae athrawon yn gyson yn annog disgyblion i werthuso eu gwaith eu hunain, gosod eu targedau eu hunain a chymryd rhan mewn hunan asesu ac asesu cymheiriaid.

Caiff rhieni wybodaeth dda am gyraeddiadau a thargedau eu plant trwy gyfrwng adroddiadau blynyddol cynhwysfawr a chyfarfodydd rheolaidd gyda staff.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r amgylchfyd cadarnhaol a chroesawgar a ddarperir ar gyfer disgyblion ac aelodau o staff yn sicrhau y diwallir anghenion pob unigolyn yn llawn. Ceir polisïau a chyfundrefnau i warantu bod disgyblion yn ddiogel a'u bod yn datblygu lles emosiynol a chorfforol yn llwyddiannus. Anogir pob un i fwyta'n iach a derbyniant ystod eang o gyfleoedd i wella ei ffitrwydd a'u hiechyd.

Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol sydd wedi ei chydbwyso'n dda yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae bron pob un disgybl yn deall yn glir y safon ddisgwyliedig o ran ymddygiad ac yn ymwybodol o'r canlyniadau os nad ydynt yn cwrdd â'r disgwyliadau hyn.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Gweithia'r ysgol yn effeithiol gydag ystod o asiantaethau allanol i ddarparu cefnogaeth a chyfleusterau arbenigol ar gyfer disgyblion bregus a heriol. Mae'r cydlynydd a'r staff cymorth yn darparu cefnogaeth ardderchog i ddisgyblion gydag anghenion addysg ychwanegol tu fewn i'r dosbarth a hefyd mewn grwpiau tynnu allan. Cydweddir targedau unigol disgyblion yn dda gyda'u hanghenion, caiff eu cynnydd ei dracio'n fanwl ac fe adolygir cynlluniau yn rheolaidd gyda rhieni.

Mae'r ysgol wedi ymdrin yn effeithiol ag anghenion disgyblion diweddar sydd â Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

Mae cysylltiadau cynhyrchiol gydag ystod eang o wasanaethau cefnogi yn sicrhau bod arbenigedd a chyngor penodol ar gael yn rhwydd i staff.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ddatganiad o genhadaeth a gwerthoedd Cristnogol cadarn ynghyd ag ethos cadarnhaol a chynhwysol. Hyrwyddir credoau a diwylliannau eraill yn llwyddiannus trwy arfer ystafell ddosbarth, themâu cwricwlaidd, agweddau rhyngwladol a chasglu ar gyfer ystod o elusennau.

Mae'r adeilad o ansawdd dda a defnyddia'r ysgol yr holl ardal sydd ar gael yn bwrpasol ac er budd y disgyblion. Ceir cyflenwad da o adnoddau perthnasol sydd o ansawdd da ac wedi eu cydweddu'n dda ag oedran a gallu disgyblion. Mae'r ardaloedd allanol yn y dosbarthiadau Cyfnod Sylfaen wedi eu datblygu'n dda ac maent yn adnodd gwerthfawr sy'n darparu amrywiaeth o brofiadau dysgu ysgogol ar gyfer disgyblion iau.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Medda'r pennaeth, mewn cysylltiad agos gyda'r uwch dîm rheoli, weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol. Mae athrawon, llywodraethwyr a rhieni wedi ymrwymo i nodau ac amcanion yr ysgol a hyrwyddant ei gwerthoedd yn effeithiol. Cyfranna hyn yn gadarnhaol i greu ethos ble gall disgyblion deimlo y cânt eu gwerthfawrogi a ble ceir ymrwymiad ar y cyd tuag at godi safonau. Ceir polisïau clir sy'n ffocysu ar anghenion disgyblion ac mae staff a llywodraethwyr yn eu deall ac yn eu gweithredu'n gydwybodol.

Mae gan yr uwch dîm rheoli rôl monitro gweithredol ymhob agwedd o fywyd ysgol, sy'n cael effaith uniongyrchol ar wella ansawdd y ddarpariaeth a'r safonau a gyflawnir gan y disgyblion. Mae staff ynghlwm yn llawn â gosod nodau a pholisïau a gwerthfawrogir eu safbwyntiau. Cyfranna hyn yn sylweddol tuag at reolaeth strategol a sefydlu arfer cyffredin ar draws yr holl ddosbarthiadau.

Mae'r corff llywodraethu yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn chwarae rôl flaenllaw wrth adnabod a nodi blaenoriaethau a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae aelodau yn ymgymryd â'u dyletswyddau statudol yn effeithiol a, thrwy brosesau dadansoddi data a hunan werthuso grymus, mae gan aelodau ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol. Mae rôl y corff llywodraethu fel cyfaill beirniadol wedi ei ddatblygu'n dda.

Ymgorfforir blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn llwyddiannus yn rhaglenni gwaith yr ysgol. Mae mentrau, fel asesu ar gyfer dysgu, wedi cyfrannu'n arwyddocaol at safonau a chynnydd disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r pennaeth wedi sefydlu ymdriniaeth rymus i hunan-arfarnu ac wedi goruchwylio sefydlu diwylliant o adolygu grymus a gonest at yr hyn mae llywodraethwyr a phob aelod o staff yn cyfrannu. Defnyddir ystod eang o ffynonellau yn effeithiol i werthuso ei berfformiad. Cynnwys y rhain ddadansoddiad data grymus, craffu rheolaidd ar bolisïau a chynlluniau gwaith, arsylwi gwersi ac ymchwilio safbwyntiau ystod dda o bartneriaid.

Darpara'r ddogfennaeth hunan -arfarnu trosolwg cynhwysfawr o'r cryfderau a'r ardaloedd ar gyfer datblygu. Defnyddir y wybodaeth hon yn dda i bennu blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol. Mae mentrau diweddar i godi safonau mewn llythrennedd yn cael effaith gadarnhaol ar safonau.

Mae cymunedau dysgu proffesiynol wedi eu sefydlu'n dda a cheir cysylltiadau effeithiol gydag ystod dda o ysgolion. Mae'r rhwydwaith hon o arfer proffesiynol yn gwneud cyfraniad pwysig i ddarpariaeth a datblygiad yr ysgol.

Mae'r cynllun gwella ysgol yn ymdrech ar y cyd ac yn cynnwys yr holl staff dysgu. Caiff ei seilio ar dystiolaeth wrthrychol ac fe'i cysylltir yn agos â deilliannau hunan-arfarnu. Darpara'r cynllun gyfeiriad strategol clir ar gyfer gwaith yr ysgol.

Mae aelodau'r uwch dîm rheoli wedi chwarae rhan flaenllaw wrth sefydlu cymuned ddysgu broffesiynol gadarn ac uchelgeisiol o fewn yr awdurdod lleol. Mae'r

deilliannau wedi bod yn hynod o gadarnhaol ac wedi arwain at welliannau arwyddocaol mewn strategaethau asesu ar gyfer dysgu ac mewn safonau siarad a gwrando. Mae hyn yn arfer ardderchog.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio yn effeithiol gydag ystod o bartneriaid strategol. Caiff hyn effaith dda ar les a chyflawniad disgyblion.

Mae rhieni yn gefnogol iawn o'r ysgol a gwerthfawrogant bolisi 'drws agored' yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol gyda'r gymuned. Mae aelodau'r gymuned yn ymweld â'r ysgol i gyfoethogi'r cwricwlwm ac mae disgyblion yn cymryd rhan mewn cyngherddau a digwyddiadau yn yr eglwys leol ac yn aml maent yn diddanu aelodau hŷn y gymuned yn y cartrefi gofal cyfagos.

Mae'r cysylltiad gyda'r feithrinfa, a leolir yn yr ysgol, yn effeithiol. Mae'r cynlluniau pontio rhwng yr ysgol a'r ysgolion partner uwchradd yn galluogi disgyblion hŷn i baratoi yn briodol ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Ceir partneriaethau da gydag ystod o asiantaethau a sefydliadau allanol ac adrannau'r awdurdod lleol i ddiwallu anghenion penodol disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Rheolir a lleolir adnoddau staff a chyllid yn effeithiol i gefnogi gwelliant.

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Lleolir athrawon a staff cymorth yn dda i wneud y defnydd gorau o'u hamser, arbenigedd a phrofiad.

Gwna athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu ac fe reolir trefniadau ar gyfer hyn yn dda. Gweithredir rheoli perfformiad i gydymffurfio ag anghenion statudol a chynhwysa'r trefniadau'r staff i gyd.

Cefnogir staff yn dda iawn, o fewn yr ysgol ac yn allanol, gan raglen gynhwysfawr o ddatblygiad proffesiynol parhaus a gysylltir â blaenoriaethau ysgol. Mae athrawon yn rhannu arfer da ac maent yn barod i dreialu syniadau newydd a ffyrdd gwahanol o weithio.

Gwneir defnydd effeithiol ac effeithlon o'r holl adnoddau sydd ar gael. Monitrir yn rheolaidd oblygiadau cyllidol yr holl flaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol. Sicrha hyn y caiff pob arian ei wario yn ddoeth ac yn unol â thargedau'r ysgol.

Ar y cyfan, mae deilliannau disgyblion yn dda a cheir tueddiad o welliant. Mae'r ysgol, felly, yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, yn ystod pedair o'r pum mlynedd diwethaf, mae canran y disgyblion gyrhaeddodd y lefel 2 disgwyliedig yn y pynciau craidd o Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn y 50% uwch o'u cymharu gydag ysgolion sydd â chanrannau tebyg o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Roedd perfformiad mewn un flwyddyn yn y 50% is o'i chymharu ag ysgolion tebyg.

Roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni lefel 2 neu'n uwch ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2011 mewn Saesneg a gwyddoniaeth ychydig yn is na'r meincnodau cenedlaethol a chanlyniadau'r bron pob un o'r ysgolion yn yr un teulu. Fodd bynnag, roedd canlyniadau ysgrifennu 29% yn is na chyfartaledd y teulu a'r meincnodau cenedlaethol. Roedd canlyniadau mathemateg fymryn yn uwch na'r meincnodau cenedlaethol. Roedd cyfran o'r disgyblion mwy galluog gyflawnodd lefel 3 mewn Saesneg a mathemateg yn arwyddocaol is na meincnodau cenedlaethol a chyfartaledd y teulu o ysgolion. Er bod canlyniadau gwyddoniaeth yn is na'r meincnodau cenedlaethol, roeddynt yn debyg i rai'r teulu o ysgolion.

Gydag eithriadau prin, mae canlyniadau cyfnod allweddol 2 yn ystod y pum mlynedd diwethaf wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda chanran y disgyblion yn cyflawni'r lefel 4 disgwyliedig neu'n uwch yn y pynciau craidd yn y 50% uwch o'u cymharu gydag ysgolion sydd â chanrannau tebyg o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae canlyniadau Saesneg ar bedwar achlysur wedi bod yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg.

Yn 2011, roedd cyfran y disgyblion gyflawnodd lefel 4 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mewn Saesneg a gwyddoniaeth yn arwyddocaol uwch na'r meincnodau cenedlaethol a chyfartaleddau'r teulu o ysgolion. Roedd canlyniadau mewn mathemateg yn gyffelyb. Roedd cyfran y disgyblion mwy galluog gyrhaeddodd lefel 5 mewn Saesneg yn uwch na'r meincnodau cenedlaethol a'r cyfartaleddau ar gyfer y teulu o ysgolion tra bod gwyddoniaeth yn gyffelyb. Roedd canlyniadau mathemateg yn is na'r meincnodau cenedlaethol a chyfartaleddau'r teulu o ysgolion.

Mae bron pob un disgybl, beth bynnag fo eu gallu a'u cefndir, yn gwneud cynnydd da trwy'r ysgol. Ar y cyfan mae merched a bechgyn yn perfformio i'r un graddau a'i gilydd .

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i rieni

Cwblhaodd dau ddeg tri o rieni'r holiadur; roedd bron pob un yn gadarnhaol ac yn gefnogol o’r ysgol. Mae’r rhan fwyaf o rieni yn datgan:

- ar y cyfan eu bod yn fodlon â’r ysgol, bod eu plentyn yn mwynhau’r ysgol, ac wedi ymsefydlu’n dda ac yn gwneud cynnydd da;
- y caiff eu plentyn help i aeddfedu ac i ysgwyddo cyfrifoldeb ac wedi ei baratoi/ pharatoi’n dda ar gyfer symud ymlaen i addysg uwchradd;
- eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn ac yn teimlo’n gyffyrddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu gwynion;
- y caiff eu plentyn ei (h)annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff rheolaidd;
- bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol, bod disgyblion yn ymddwyn yn dda a bod staff yn disgwyl i’w plentyn weithio’n galed a gwneud ei (g)orau; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a bod yr addysgu’n dda

Nid yw lleiafrif o rieni yn cytuno bod ystod dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau.

Mae’r ymatebion hyn yn cymharu’n ffafriol â’r meincnodau cenedlaethol

### Ymateb i’r holiadur i ddysgwyr

Cwblhaodd cant dau ddeg saith o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yr holiadur; roedd y mwyafrif o ymatebion yn rhai cadarnhaol. Dywed y rhan fwyaf o ddisgyblion;

- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, bod athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac yn gwybod pwy i siarad ag ef /â hi os ydynt yn poeni neu’n gofidio; a
- bod yr ysgol yn eu dysgu sut i fod yn iach a bod nifer o gyfleoedd iddynt i gadw’n iach trwy ymarfer corff rheolaidd.

Dywed nifer o ddisgyblion:

- eu bod yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol, bod staff yn delio’n dda gydag unrhyw fwlian: a
- bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith a bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

Nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn teimlo bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth ac yn ystod amser chwarae ac amser cinio.

Mae’r rhan fwyaf o ymatebion disgyblion yn debyg i’r meincnodau cenedlaethol ac eithrio’r rhai yn ymwneud â safbwyntiau disgyblion ynglŷn â gwaith cartref ac ymddygiad plant yn y gwersi ac yn ystod amser chwarae. Yn yr achosion hyn mae canran yr anghytuno gan ddisgyblion o leiaf 25% yn fwy na’r cyfartaleddau cenedlaethol.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mr W Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Prydwen Elfed-Owens | Arolygydd Tîm |
| Mr K Jones | Arolygydd Lleyg |
| Mr S Bates | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs S P Williams | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i’r ysgol ddarparu copïau o’r adroddiad i holl rieni’r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai’r ysgol anfon copi o’r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae’r adroddiad data i’w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â’r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae’r term ‘Derbyn’ (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy’n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw’r grŵp o fyfyrwyr sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.